Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Rhent Swyddfa Etholaeth

10 Ebrill 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

1. *Beth yw cyfeiriad swyddfa etholaeth Andrew RT Davies os gwelwch yn dda?*
2. *Faint o arian trethdalwyr sy'n cael ei dalu mewn rhent ar gyfer y swyddfa hon a phwy sy'n cael yr arian?*
3. *Faint sydd wedi'i wario ar gynnal a chadw'r swyddfa?*

1. Cyfeiriad swyddfa etholaeth Andrew RT Davies yw:

Swyddfa Andrew RT Davies AC, Ystâd Penllyn, Llwynhelig, y Bont-faen
CF71 7FF.

Mae ganddo hefyd swyddfa yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, TŷHywel, Bae Caerdydd. Cyhoeddir manylion cyswllt llawn ar ein gwefan.

2. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn cysylltiad â'ch cais.

3. Fel uchod, nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn cysylltiad â'ch cais.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu hawlio wedi'u cynnwys mewn 'Penderfyniad' a chyhoeddir yr holl dreuliau ar ein cronfa ddata treuliau.

Nodwch fod treuliau'n cael eu cyhoeddi tri mis mewn ôl-ddyled a gellir eithrio data personol lle byddai'n mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data a gynhwysir yn Neddf Diogelu Data 1998. Os oes angen

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

cyfarwyddiadau pellach arnoch ar sut i chwilio'r gronfa ddata, rhowch wybod i mi.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF